Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre


**Cyhoeddwyd:** Tachwedd 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 446A2015

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n cymryd unrhyw gyfrifoldeb yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu capasiti unigol, nac yng nghyswllt unrhyw drydydd parti.

Pe byddid yn derbyn cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r hyn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei wneud wrth ddelio â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y tîm a fu'n cyflawni'r gwaith oedd Anne Beegan, Gareth Lewis a Stephen Pittey.

# Cynnwys

Yn gyfrannol, gwnaed mwy o fuddsoddiad mewn TGCh na chan y rhan fwyaf o gyrff GIG eraill ac awgryma ein gwaith diagnostig fod yr adnoddau TGCh yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar hyn o bryd yn bur effeithiol gyda chefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Rhagarweiniad | 4 |
| Asesiad cryno | 5 |
| Argymhellion | 11 |
| Adroddiad manwl | |
| Mae lefel y buddsoddiad mewn TGCh yn uwch na'r lefel sy'n cael ei hargymell a gyda'r uchaf yng Nghymru | 12 |
| Mae lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch o'u cymharu â'r rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill yng Nghymru er bod llawer o'r staff ond yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru ac nid oes dim staff rheoli gwybodaeth mewnol | 14 |
| Ar y cyfan mae ymrwymiad cadarnhaol i TGCh yn yr Ymddiriedolaeth ac mae canfyddiad y meddygon o gyfleusterau TG yn well nag yng ngweddill Cymru | 19 |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth lefel dda o ddyfeisiau TG ar gael i'r staff ac mae'r mynediad ffisegol at gyfrifiaduron a systemau gwybodaeth glinigol yn dda | 23 |
| Rheolir cyfarpar TGCh yr Ymddiriedolaeth yn dda ac, ar y cyfan, mae dibynadwyedd y systemau'n foddhaol | 26 |
| Mae'r trefniadau hyfforddiant presennol, ar y cyfan, yn cefnogi medrusrwydd gyda defnyddio'r systemau ac ansawdd y wybodaeth sydd ynddynt | 28 |
| Mae meddygon yn gwneud y defnydd mwyaf o systemau TGCh clinigol prif ffrwd i ofalu am gleifion, yn llawer mwy nag amryw o rai eraill ar draws Cymru | 30 |
| Atodiadau | |
| Dull archwilio | 34 |
| Yr egwyddor sgorio a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymiad i TGCh glinigol | 35 |
| Sylwadau testun rhydd a gyflwynwyd fel rhan o'r arolwg staff meddygol | 37 |

# Adroddiad cryno

## Rhagarweiniad

**1.** Mae trefniadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) effeithiol yn rhan hanfodol o wasanaeth gofal iechyd modern o ansawdd uchel. Mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'n dod yn fwy dibynnol ar ddefnyddio TGCh nid yn unig ar gyfer darparu gofal iechyd diogel ac effeithiol yng Nghymru ond hefyd er mwyn moderneiddio a chefnogi gwelliannau i wasanaethau a chreu arbedion effeithlonrwydd. Mae cyfrinachedd, diogelwch ac argaeledd y wybodaeth am gleifion, a defnyddio systemau TGCh gwydn ac addas i'r diben, yn chwarae rhan bwysig mewn darparu gofal claf-ganolog.

**2.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pa mor bwysig yw rôl TGCh[1] ac, ynghyd â'i rhaglen wybodeg genedlaethol, yn Ebrill 2013 neilltuodd becyn buddsoddiad tair blynedd gwerth £25 miliwn. Sefydlwyd y pecyn buddsoddiad hwn i gefnogi'r gwaith lleol o drawsnewid gofal iechyd yng Nghymru drwy gyflwyno ffyrdd newydd o weithio a thriniaethau newydd yn defnyddio technoleg fodern. Yn y flwyddyn gyntaf, dyrannodd Lywodraeth Cymru ychydig dros £9.5 miliwn i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar draws Cymru.

**3.** Yn 2014, roedd trefniadau cynllunio newydd y GIG yn nodi bod angen i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau achub ar bob cyfle technolegol ac arloesi a dangos sut y maen nhw'n bwriadu gwireddu'r manteision o fuddsoddi mewn cyfalaf a seilwaith dros y tair blynedd nesaf. I gefnogi hyn, disgwylir i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fod â strategaethau yn eu lle'n dangos sut y maen nhw'n bwriadu datblygu eu hasedau i gwrdd ag anghenion gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyfarpar a seilwaith TGCh, a hynny ym mhob lleoliad gofal iechyd gan gynnwys gofal sylfaenol.

**4.** Mae cyflwyno'r pecyn buddsoddiad tair blynedd yn un cam yn nes at gychwyn cefnogi'r weledigaeth a nodir yn strategaethau Llywodraeth Cymru drwy gyflwyno technoleg newydd. Fodd bynnag, yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar **Sefyllfa Ariannol y Gwasanaeth Iechyd** yn 2013, cymysg oedd cyflwr asedau fel TGCh ar draws Cymru. Nododd fod lefel y buddsoddiad oedd ei angen dim ond i adnewyddu'r cyfarpar TGCh y tybiwyd iddo fod wedi 'gorffen ei oes' yn oddeutu £68 miliwn ym Mawrth 2014, gan godi i £83 miliwn erbyn Mawrth 2015. Mae cyflwr TGCh, ynghyd ag asedau ac agweddau eraill ar yr ystâd, yn bwysau ychwanegol trwm ar gyllidebau gwariant cyfalaf a refeniw'r GIG heddiw ac yn y dyfodol.

**5.** Mae gan dechnoleg sydd wedi dyddio ac sy'n cael ei chynnal yn wael oblygiadau i ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir. Wrth symud tuag at Gofnod Claf Electronig sengl, mae'n bwysig bod systemau gwybodaeth glinigol yn gyd-integredig ac y defnyddir yr un systemau ar draws gwahanol safleoedd sy'n darparu'r un gwasanaethau yn y sefydliad. Mae mynediad gwael at wybodaeth glinigol oherwydd prinder cyfrifiaduron a gliniaduron etc, neu os na ellir dibynnu ar systemau clinigol,

[1] Roedd y **Cynllun Oes** yn 2005 a **Law yn Llaw at Iechyd** yn 2011 ill dau'n nodi bod angen i wasanaethau gael eu cefnogi'n effeithiol gan seilwaith gwybodaeth a chyfathrebu os am ddarparu gofal iechyd o safon fyd-eang yng Nghymru. Pwysleisiwyd hyn ymhellach mewn datganiad ysgrifenedig gan Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn Ebrill 2014.

hefyd yn creu aneffeithlonrwydd gyda darparu gwasanaethau ac yn peryglu gofal y claf os nad yw gwybodaeth glinigol ar gael.

**6.** O ystyried y pwysau cynyddol ar y cyllid refeniw a chyfalaf sy'n cael ei ddyrannu i gyrff y GIG, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyflawni adolygiad diagnostig manwl o gapasiti ac adnoddau TGCh er mwyn cael syniad o ba mor dda y mae'r adnoddau TGCh presennol ar draws Cymru'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd, ac i ganfod pa feysydd sydd angen mwy o sylw.

## Asesiad cryno

**7.** Mae'r adolygiad diagnostig yn seiliedig ar ddadansoddi data cymharol a barn sampl o staff sy'n defnyddio systemau TGCh clinigol yn rheolaidd. Cyflwynir canfyddiadau'r dadansoddiad data ym mhrif gorff yr adroddiad hwn ond mae Arddangosyn 1 yn gosod allan asesiad cryno sy'n defnyddio system sgorio goleuadau traffig i ddangos sut y mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn cymharu â byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru.

**8.** Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, roedd ein sampl o staff yn cynnwys deg staff meddygol a chwe staff nyrsio ward Band 5 i 7 yn Ysbyty Felindre. Rhoddir manylion pellach am ein dull archwilio yn Atodiad 1.

**9.** Ar sail y dadansoddiad hwn casglwn, yn gyfrannol, fod mwy o fuddsoddiad mewn TGCh na chan y rhan fwyaf o gyrff GIG eraill ac awgryma ein gwaith diagnostig fod yr adnoddau TGCh yn yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn bur effeithiol gyda chefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd.

Arddangosyn 1: Asesiad cryno

| Dangosydd | Perfformiad yr Ymddiriedolaeth | Sgôr y perfformiad[2] |
|---|---|---|
| **Mae lefel y buddsoddiad mewn TGCh yn uwch na'r lefel sy'n cael ei hargymell a gyda'r uchaf yng Nghymru.** | | |
| Cyfanswm y gwariant ar TGCh | Mae cyfanswm y gwariant ar TGCh, sef 2.7 y cant, yn uwch na'r hyn sy'n cael ei argymell sef dau y cant o'r cyfanswm gwariant refeniw ac yn sylweddol uwch na'r cyfartalog Cymru gyfan. | ● (Gwyrdd) |
| Tuedd o ran gwariant | Ers 2010-11 mae cyfanswm y gwariant ar TGCh wedi dyblu i £2.6 miliwn yn 2013-14. | ● (Gwyrdd) |
| Y gallu i ddenu cyllid TGCh ychwanegol | Llwyddwyd i ddenu cyllid ychwanegol o £0.9 ar gyfer TGCh yn 2013-14, sydd ychydig dros y cyfartalog Cymru gyfan o £0.828 miliwn. | ● (Melyn) |
| Cyfanswm y gwariant ar y gweithlu TGCh | Mae lefel y gwariant ar y gweithlu TGCh, sef 0.9 y cant o'r holl wariant refeniw, yn uwch na'r cyfartalog Cymru gyfan a'r ail uchaf yng Nghymru. | ● (Gwyrdd) |
| Gwariant cyfartalog ar bob gweithiwr TGCh cyfwerth ag amser llawn | Y gwariant cyfartalog ar bob gweithiwr TGCh cyfwerth ag amser llawn (WTE) yw £41,007 sy'n uwch na'r cyfartalog Cymru gyfan o £35,467 a gallai adlewyrchu cymysgedd mwy cyfoethog o raddfeydd staff. | Dangosydd disgrifiadol |
| **Mae lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch o'u cymharu â'r rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill yng Nghymru er bod llawer o'r staff ond yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru ac nid oes dim staff rheoli gwybodaeth mewnol.** | | |
| Cyfanswm lefel y staff TGCh | Mae cyfanswm y staff TGCh am bob mil o staff yn yr Ymddiriedolaeth, sef 20.1 o staff cyfwerth ag amser llawn, yn llawer uwch na'r cyfartalog Cymru gyfan. | ● (Gwyrdd) |
| Lefel y staff TGCh technegol | Mae cyfanswm y staff TGCh technegol yr uchaf yng Nghymru ond dim ond gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru y mae'r staff hyn yn gweithio. | ● (Melyn) |
| Lefel y staff rheoli gwybodaeth | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi nad oes ganddi unrhyw staff rheoli gwybodaeth. | - |

[2] Mae'r sgôr perfformiad yn seiliedig ar gymharu gyda pherfformiad byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru. Mae Gwyrdd (●) yn awgrymu bod y perfformiad yn un o'r rhai mwyaf cadarnhaol yng Nghymru, Melyn (●) bod y perfformiad yn uwch neu'n is na'r cyfartalog Cymru gyfan, a Choch (●) bod y perfformiad yn un o'r rhai lleiaf cadarnhaol yng Nghymru.

| Dangosydd | Perfformiad yr Ymddiriedolaeth | Sgôr y perfformiad[3] |
|---|---|---|
| **Mae lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch o'u cymharu â'r rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill yng Nghymru er bod llawer o'r staff ond yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru ac nid oes dim staff rheoli gwybodaeth mewnol.** | | |
| Lefel y staff dadansoddi data | Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi nad oes ganddi unrhyw ddadansoddwyr data. | - |
| **Ar y cyfan mae ymrwymiad cadarnhaol i TGCh yn yr Ymddiriedolaeth ac mae canfyddiad y meddygon o gyfleusterau TG yn well nag yng ngweddill Cymru.** | | |
| Ymrwymiad y sefydliad i TGC glinigol | Mae lefel yr ymrwymiad i TGCh glinigol yn uwch na'r cyfartalog Cymru gyfan a'r trydydd uchaf yng Nghymru. | ● |
| Integreiddio systemau | Mae lefel yr integreiddio rhwng systemau gwybodaeth glinigol a CANISC yn gymharol i'r hyn sydd mewn llawer o gyrff eraill y GIG. | ● |
| Rheoli staff TGCh y tu allan i'r adran TGCh | Nid oes unrhyw staff rheoli gwybodaeth neu staff dadansoddi data y tu allan i reolaeth yr adran TGCh, ond mae staff TGCh technegol a staff TGCh eraill mewn swydd cyfwerth â £0.076 miliwn. | ● |
| Canfyddiad meddygon o drefniadaeth a rheolaeth o TGCh | Roedd gan hanner y meddygon (5 allan o 10) farn gadarnhaol am y gwaith o drefnu a rheoli TGCh o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 31 y cant. Dyma'r ail uchaf yng Nghymru. | ● |
| **Mae gan yr Ymddiriedolaeth lefel dda o ddyfeisiau TG ar gael i'r staff ac mae'r mynediad ffisegol at gyfrifiaduron a systemau gwybodaeth glinigol yn dda.** | | |
| Cyfanswm y dyfeisiau (cyfrifiaduron, terfynellau, etc) i bob meddyg | Mae nifer y dyfeisiau i bob meddyg WTE yr ail uchaf yng Nghymru sef 13.3. | ● |
| Mynediad ffisegol at gyfrifiaduron (meddygon) | Dim ond un meddyg (allan o 10) a ddywedodd fod mynediad ffisegol at gyfrifiaduron yn broblem ddyddiol neu wythnosol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 33 y cant. | ● |

[3] Mae'r sgôr perfformiad yn seiliedig ar gymharu gyda pherfformiad byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru. Mae Gwyrdd (●) yn awgrymu bod y perfformiad yn un o'r rhai mwyaf cadarnhaol yng Nghymru, Melyn (●) bod y perfformiad yn uwch neu'n is na'r cyfartalog Cymru gyfan, a Choch (●) bod y perfformiad yn un o'r rhai lleiaf cadarnhaol yng Nghymru.

| Dangosydd | Perfformiad yr Ymddiriedolaeth | Sgôr y perfformiad[4] |
|---|---|---|
| **Mae gan yr Ymddiriedolaeth lefel dda o ddyfeisiau TG ar gael i'r staff ac mae'r mynediad ffisegol at gyfrifiaduron a systemau gwybodaeth glinigol yn dda.** | | |
| Cyfanswm y dyfeisiau (cyfrifiaduron, terfynellau, etc) i bob nyrs | Mae nifer y dyfeisiau i bob nyrs WTE yr ail uchaf yng Nghymru sef 3.1. | 🟢 |
| Mynediad ffisegol at gyfrifiaduron (nyrsys) | Dywedodd ddwy allan o chwech (33 y cant) o'r staff nyrsio ar y wardiau fod mynediad ffisegol at gyfrifiaduron yn broblem ddyddiol neu wythnosol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 48%. | 🟢 |
| Hawl mynediad at systemau gwybodaeth glinigol | Ni soniodd yr un o'r staff nyrsio ar y wardiau am system wybodaeth glinigol nad oedd ganddynt fynediad ati ond yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe bai ganddynt, o'i gymharu â 24 y cant ar draws Cymru. | 🟢 |
| **Rheolir cyfarpar TGCh yr Ymddiriedolaeth yn dda ac, ar y cyfan, mae dibynadwyedd y systemau'n foddhaol.** | | |
| Mynediad gwael oherwydd problemau gyda systemau (meddygon) | Ar gyfartaledd dywedodd 2 allan o 10 (20 y cant) o feddygon fod mynediad oherwydd bod systemau'n chwalu neu ddim ar gael yn broblem ddyddiol neu wythnosol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 21 y cant ar draws Cymru. | 🟡 |
| Mynediad gwael oherwydd problemau gyda systemau (nyrsys) | Ni ddywedodd yr un o'r staff nyrsio ar y wardiau fod mynediad oherwydd bod systemau'n chwalu neu ddim ar gael yn broblem ddyddiol neu wythnosol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 28 y cant ar draws Cymru. | 🟢 |
| Cofnodion o amser segur a gynlluniwyd ac annisgwyl | Mae cofnodion ar gael o amser segur a gynlluniwyd ac annisgwyl ar gyfer holl systemau gwybodaeth glinigol yr Ymddiriedolaeth. | 🟢 |
| Lefel yr amser segur annisgwyl | Adroddwyd dim ond 15 awr o amser segur annisgwyl yn 2013-14. | Dangosydd disgrifiadol |
| Cyfarpar TGCh a ddosbarthwyd fel bod wedi 'gorffen ei oes' | Roedd y gost gros o adnewyddu'r cyfarpar TGCh a ddosbarthwyd fel bod wedi 'gorffen ei oes' ar 31 Mawrth 2014 yr isaf yng Nghymru sef £1.2 miliwn. | 🟢 |

[4] Mae'r sgôr perfformiad yn seiliedig ar gymharu gyda pherfformiad byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru. Mae Gwyrdd (🟢) yn awgrymu bod y perfformiad yn un o'r rhai mwyaf cadarnhaol yng Nghymru, Melyn (🟡) bod y perfformiad yn uwch neu'n is na'r cyfartalog Cymru gyfan, a Choch (🔴) bod y perfformiad yn un o'r rhai lleiaf cadarnhaol yng Nghymru.

| Dangosydd | Perfformiad yr Ymddiriedolaeth | Sgôr y perfformiad[5] |
|---|---|---|
| **Mae’r trefniadau hyfforddiant presennol, ar y cyfan, yn cefnogi medrusrwydd gyda defnyddio’r systemau ac ansawdd y wybodaeth sydd ynddynt.** | | |
| Hyfforddiant ar systemau gwybodaeth glinigol i staff newydd | Cynigir hyfforddiant ar y systemau gwybodaeth glinigol i bob aelod newydd o staff lle mae angen defnyddio systemau o’r fath. | ● |
| Mynediad at gyfrineiriau a rhifau adnabod mewngofnodi | Rhaid i staff clinigol fynychu sesiwn hyfforddiant i dderbyn rhif adnabod mewngofnodi a chyfrinair ar gyfer y systemau sydd ei angen arnynt, er y dywedodd staff nyrsio fod oedi gyda derbyn yr hyfforddiant gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). | ● |
| Parhad yr hyfforddiant ar PAS | Mae’r hyfforddiant ar brif system gleifion yr ysbyty, CANISC, yn para 1.3 awr ar gyfartaledd sy’n llai na’r cyfartalog Cymru gyfan o bron i bedair awr. | Dangosydd disgrifiadol |
| Defnydd medrus o systemau TG | Teimlai 7 allan o 10 (70 y cant) o’r meddygon eu bod yn fedrus yn eu defnydd o’r systemau TG yr oedd ei angen arnynt. Roedd hyn yn unol â’r cyfartalog Cymru gyfan. | ● |
| Hyfforddiant ar ddiogelu data a gofynion Caldicott | Mae hyfforddiant gloywi ar ddiogelu data / gofynion Caldicott yn orfodol ar gyfer yr holl staff. | ● |
| Hyfforddiant ar ansawdd data | Mae'r hyfforddiant ar ansawdd data’n ddewisol er y dywedodd 8 allan o 10 (80 y cant) o’r meddygon y gallent ddibynnu ar y wybodaeth yn y systemau clinigol. Roedd hyn yr uchaf yng Nghymru. | ● |
| Hyfforddiant ar gyfer staff clinigol dros dro | Darperir hyfforddiant i’r holl staff clinigol dros dro sy’n cymharu’n ffafriol ar draws Cymru. | ● |

[5] Mae’r sgôr perfformiad yn seiliedig ar gymharu gyda pherfformiad byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru. Mae Gwyrdd (●) yn awgrymu bod y perfformiad yn un o’r rhai mwyaf cadarnhaol yng Nghymru, Melyn (●) bod y perfformiad yn uwch neu’n is na’r cyfartalog Cymru gyfan, a Choch (●) bod y perfformiad yn un o’r rhai lleiaf cadarnhaol yng Nghymru.

| Dangosydd | Perfformiad yr Ymddiriedolaeth | Sgôr y perfformiad[6] |
|---|---|---|
| **Mae meddygon yn gwneud y defnydd mwyaf o systemau TGCh clinigol prif ffrwd i ofalu am gleifion, yn llawer mwy nag amryw o rai eraill ar draws Cymru.** | | |
| Defnydd o systemau clinigol i gael gafael ar wybodaeth glinigol | Ar gyfartaledd, mae 7 allan o 10 (67 y cant) o feddygon yn defnyddio systemau cyfrifiadurol yn unig i gael gafael ar wybodaeth ar gyfer gwahanol dasgau clinigol, o'i gymharu â'r cyfartalog Cymru gyfan o 21 y cant. Dyma'r uchaf yng Nghymru. | ● |
| Mae'n hawdd dod o hyd i'r wybodaeth glinigol | Dywedodd 8 allan o 10 (81 y cant) o feddygon sy'n defnyddio'r cyfrifiadur ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth glinigol ar y system, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 82 y cant. | ● |
| Defnyddio systemau clinigol i gwblhau tasgau clinigol | Ar gyfartaledd, mae 4 allan o 10 (43 y cant) o feddygon yn defnyddio systemau cyfrifiadurol yn unig i gwblhau ystod o wahanol dasgau clinigol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 28 y cant. Dyma'r uchaf yng Nghymru. | ● |
| Mae cwblhau'r dasg yn hawdd | Dywedodd 9 allan o 10 (90 y cant) o feddygon ei bod yn hawdd cwblhau tasgau clinigol ar y system, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 72 y cant. Dyma'r uchaf yng Nghymru. | ● |
| Defnyddio rhaglenni pwrpasol a ddatblygwyd yn bersonol yn fewnol | Dywedodd 7 allan o 9 (78 y cant) o feddygon eu bod yn defnyddio rhaglenni oedd wedi'u datblygu'n bersonol yn fewnol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 43 y cant, er y dywedodd y rhan fwyaf mai pur anaml yr oeddent yn eu defnyddio. | ● |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

[6] Mae'r sgôr perfformiad yn seiliedig ar gymharu gyda pherfformiad byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru. Mae Gwyrdd (●) yn awgrymu bod y perfformiad yn un o'r rhai mwyaf cadarnhaol yng Nghymru, Melyn (●) bod y perfformiad yn uwch neu'n is na'r cyfartalog Cymru gyfan, a Choch (●) bod y perfformiad yn un o'r rhai lleiaf cadarnhaol yng Nghymru.

# Argymhellion

**10.** Wrth gyflawni'r gwaith diagnostig hwn, awgryma ein dadansoddiad fod angen i'r Ymddiriedolaeth roi sylw arbennig i wella'r meysydd canlynol:


| **Darparu gwasanaethau rheoli gwybodaeth** | |
|---|---|
| R1 | O ystyried y gyfradd uwch o staff meddygol a ddywedodd eu bod yn defnyddio rhaglenni wedi'u datblygu'n bersonol yn fewnol, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod lefel y gwasanaethau rheoli gwybodaeth a ddarperir drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ddigon i gwrdd ag anghenion staff clinigol yr Ymddiriedolaeth, fel bod llai o angen defnyddio systemau pwrpasol mewnol. |

## Mae lefel y buddsoddiad mewn TGCh yn uwch na'r lefel sy'n cael ei hargymell a gyda'r uchaf yng Nghymru

**11.** Roedd strategaeth flaenorol Llywodraeth Cymru **Gwella Iechyd yng Nghymru** yn 2001 yn cydnabod bod angen i'r gwariant ar TGCh fod yn ddau y cant o'r holl wariant refeniw o leiaf. Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yn berthnasol i gyrff y GIG ar draws Cymru, ond ar adeg o gyni mae'n dod yn fwyfwy anodd cwrdd â'r argymhelliad.

**12.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, roedd cyfran yr holl wariant refeniw ar TGCh ar draws Cymru yn ddim ond 0.84 y cant (Arddangosyn 2). Yn yr Ymddiriedolaeth, mae cyfanswm y gwariant ar TGCh yn 2.7 y cant[7]. Mae hyn yn uwch na'r dau y cant sy'n cael ei argymell ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan.

Arddangosyn 2: Cyfanswm y gwariant ar TGCh fel cyfran o'r holl wariant refeniw yn 2013-14





Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon ariannol y Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau

[7] Mae cyfrifiadau Incwm a Gwariant ar gyfer Ymddiriedoloaeth GIG Felindre'n cynnwys data ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru, Canolfan Ganser Felindre a'r gwasanaethau corfforaethol

**13.** Ers 2010-11, adroddir bod lefel y gwariant ar TGCh wedi dyblu o £1.3 miliwn i £2.6 miliwn yn 2013-14. Ar ben hynny, dywedodd yr Ymddiriedolaeth iddi lwyddo i ddenu cyllid ychwanegol o tua £0.9 miliwn yn 2013-14 (ac o hwn roedd tua dwy ran o dair ohono ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru)[8]. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn uwch na'r cyfartalog Cymru gyfan o £0.8 miliwn.

**14.** Yn 2013-14, gwariodd yr Ymddiriedolaeth £0.878 miliwn ar ei gweithlu TGCh yn y flwyddyn ariannol 2013-14. Mae hyn yn cynnwys gwariant o £0.486 miliwn ar Wasanaeth Gwaed Cymru (WBS). Roedd hyn yn cyfateb i 34 y cant o'r holl wariant ar TGCh. Mae lefel y gwariant ar weithlu TGCh yr Ymddiriedolaeth, sef 0.9 y cant o'r holl wariant refeniw, yr ail uchaf yng Nghymru (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: Gwariant ar y gweithlu TGCh fel cyfran o'r holl wariant refeniw yn 2013-14




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon ariannol y Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau

**15.** Y gwariant cyfartalog ar bob gweithiwr TGCh cyfwerth ag amser llawn (WTE) yw £41,007[9]. Dyma'r ail uchaf ar draws Cymru lle mae'r gwariant cyfartalog ar bob gweithiwr TGCh WTE yn £35,467. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu gwahanol

[8] Incwm anghylchol a nodir gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn y categorïau "Cyfalaf Disgresiynol", "Cyllid NWIS", "Grantiau Prosiect" ac "Arall"
[9] Mae'r ffigur yn cynnwys unrhyw staff NWIS a gyflogir gan yr Ymddiriedolaeth

gymysgedd o sgiliau neu gymysgedd mwy cyfoethog o raddfeydd staff yn yr Ymddiriedolaeth.

## Mae lefelau staffio ar gyfer TGCh yn uwch o'u cymharu â'r rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill yng Nghymru er bod llawer o'r staff ond yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru ac nid oes dim staff rheoli gwybodaeth mewnol


**16.** Bydd pa mor effeithiol fydd yr adran TGCh yn darparu a chefnogi seilwaith TGCh sy'n gwasanaethu anghenion y sefydliad yn dda'n dibynnu ar argaeledd adnoddau gyda sgiliau priodol. Mae systemau gwybodaeth glinigol hefyd yn dal lefel aruthrol o wybodaeth. Mae felly'n bwysig bod digon o gapasiti yn yr adran TGCh i sicrhau bod y systemau'n ddibynadwy a hygyrch i'r rhai sydd eu hangen nhw. Mae hefyd yn bwysig mai'r data yn y systemau yw'r data iawn, ei fod yn cael ei reoli a'i gyflwyno'n briodol a hefyd yn cael ei ddadansoddi a'i drawsnewid yn ddata defnyddiol er mwyn darparu'r wybodaeth fusnes iawn i wneud penderfyniadau strategol a gweithredol yn y GIG.

**17.** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod ganddi 21.4 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn yr adrannau TGCh yng Nghanolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru[10]. Mae gan yr Ymddiriedolaeth 20.1 o staff TGCh am bob mil o'i staff[11]. Mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan o 8.8 o weithwyr WTE am bob mil o staff (Arddangosyn 4). Fodd bynnag roedd cyfran sylweddol o'r rhain ond yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru, a phan luniwyd yr adroddiad roedd 7.0 o weithwyr WTE o NWIS yn cael eu cyflogi a'u rheoli gan adran TGCh yr Ymddiriedolaeth drwy gytundeb lefel gwasanaeth.  Mae'r trefniadau ar gyfer y staff hyn wedi newid ers hynny.

[10] Mae staff cyfwerth ag amser llawn yn cynnwys staff NWIS a gyflogir gan yr Ymddiriedolaeth ac sy'n dod o dan y tîm rheoli TGCh. Ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre, pan gasglwyd y data adroddwyd bod hyn yn 7.0

[11] Mae holl staff cyfwerth ag amser llawn yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys yr holl staff a gyflogir yng Nghanolfan Ganser Felindre, Gwasanaeth Gwaed Cymru a'r gwasanaethau Corfforaethol

Arddangosyn 4: Cyfanswm y staff TGCh (WTE) am bob mil o staff y Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau (WTE)





Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

**18.** Fel rhan o'n gwaith, ystyriwyd faint o staff gyda sgiliau gwahanol sydd mewn swydd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Staff technegol sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithrediad a gweithredu'r seilwaith TGCh craidd;
- Staff rheoli gwybodaeth, gan gynnwys dadansoddwyr data sy'n gyfrifol ymhlith pethau eraill am baratoi adroddiadau rheoli gwybodaeth, dylunio a chynnal cronfeydd data ynghyd â dehongli a dadansoddi data; a
- Staff eraill gan gynnwys staff desg gymorth, datblygwyr meddalwedd, rheolwyr prosiect a hyfforddwyr TGCh.

**19.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod ganddi 8.4 o staff technegol WTE. Lleolir pob un o'r staff hyn yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru sy'n adlewyrchu bod yr holl systemau TG yng Nghanolfan Ganser Felindre'n cael eu rheoli a'u cefnogi gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS). Lefel y staff TGCh technegol ar draws Cymru gyfan yw 4.0 o staff WTE am bob mil o'r cyfanswm staff (Arddangosyn 5).


Arddangosyn 5: Cyfanswm y staff TGCh technegol (WTE) am bob mil o gyfanswm staff y Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau (WTE)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

**20.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi nad oes ganddi unrhyw staff rheoli gwybodaeth. Darperir yr holl wasanaethau rheoli gwybodaeth drwy'r cytundeb lefel gwasanaeth gyda NWIS. Lefel y staff rheoli gwybodaeth ar draws Cymru gyfan yw 2.3 o staff WTE am bob mil o gyfanswm staff yr Ymddiriedolaeth (Arddangosyn 6).


Arddangosyn 6: Cyfanswm y staff Rheoli Gwybodaeth (WTE) am bob mil o gyfanswm staff y Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau (WTE)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

21. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi nodi nad yw'n cyflogi staff dadansoddi data, ond eto mae'n derbyn y gwasanaeth hwn drwy gytundeb lefel gwasanaeth â NWIS. Ar draws Cymru, dim ond 0.6 o staff dadansoddi data WTE sydd am bob mil o'r cyfanswm staff (Arddangosyn 7).

Arddangosyn 7: Cyfanswm y staff dadansoddi data (WTE) am bob mil o gyfanswm staff y Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau (WTE)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

## Ar y cyfan mae ymrwymiad cadarnhaol i TGCh yn yr Ymddiriedolaeth ac mae canfyddiad y meddygon o gyfleusterau TG yn well nag yng ngweddill Cymru

**22.** Mae'r ymrwymiad i TGCh gan uwch reolwyr a staff clinigol yn bwysig i annog mwy o ddefnydd o'r systemau gwybodaeth presennol ac ymrwymiad i ddatblygiadau yn y dyfodol. Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi ystyried nifer o feysydd arfer da i ddangos a oes ymrwymiad i TGCh glinigol neu beidio. Mae'r meysydd hyn wedi cael eu pwysoli'n defnyddio matrics sgorio i roi syniad yn gyffredinol o lefel yr ymrwymiad i TGCh yn yr Ymddiriedolaeth (Arddangosyn 8).

Arddangosyn 8: Cydymffurfio ag agweddau ar arfer da i ddangos ymrwymiad cadarnhaol i TGCh glinigol

| Maes arfer da | Sgôr yr Ymddiriedolaeth[12] |
|---|---|
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddogfen strategaeth TGCh ddiweddar (uchafswm sgôr o 2) | 2 |
| Mae'r strategaeth TGCh neu ddatblygiadau TGCh newydd wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd bwrdd yn y 12 mis diwethaf (uchafswm sgôr o 2) | 2 |
| Mae gan yr Ymddiriedolaeth grŵp llywio TGCh sy'n cynnwys aelod o'r bwrdd (uchafswm sgôr o 1) | 1 |
| Mae'r grŵp llywio TGCh yn cynnwys aelodau clinigol (uchafswm sgôr o 1) | 1 |
| Mae'r strategaeth TGCh neu ddatblygiadau TGCh newydd wedi bod ar agenda cyfarfodydd uwchweithredol yn y 12 mis diwethaf (uchafswm sgôr o 2) | 2 |
| Mae'r arweinydd TGCh yn aelod o'r tîm Rheoli Uwchweithredol (uchafswm sgôr o 3) | 3 |
| Mae TG a Rheoli Gwybodaeth yn cael eu cydlynu'n ganolog (uchafswm sgôr o 2) | 1 |
| Mae staff clinigol yn cyfrannu'n weithredol at raglen TGCh yr Ymddiriedolaeth, a hynny'n cynnwys adnabod pencampwyr clinigol (uchafswm sgôr o 3) | 2 |
| Mae dealltwriaeth dda o seilwaith technegol y sefydliad (uchafswm sgôr o 1) | 1 |
| Mae rhaglen ar gyfer rheoli manteision TGCh (uchafswm sgôr o 3) | 0 |
| Mae'r arweinydd TGCh yn cyfrannu at y rhaglen Llywodraethu Clinigol (uchafswm sgôr o 3) | 3 |


[12] Rhoddir dadansoddiad manwl o'r egwyddor sgorio yn Atodiad 2

| Maes arfer da | Sgôr yr Ymddiriedolaeth[13] |
|---|---|
| Mae grŵp defnyddwyr TGCh clinigol (uchafswm sgôr o 2) | 2 |
| Mae trefniadau ar gyfer gofyn yn rheolaidd am adborth gan staff (uchafswm sgôr o 2) | 2 |
| **CYFANSWM SGÔR (ALLAN O UCHAFSWM O 27)** | **22** |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

**23.** Yn gyffredinol mae lefel ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i TGCh yn uwch na'r cyfartaledd Cymru gyfan a'r trydydd uchaf yng Nghymru (Arddangosyn 9).

Arddangosyn 9: Sgôr cyffredinol ar gyfer ymrwymiad i TGCh




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

[13] Rhoddir dadansoddiad manwl o'r egwyddor sgorio yn Atodiad 2

24. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth CANISC yw'r prif gofnod claf electronig a ddefnyddir ganddi yng Nghanolfan Ganser Felindre, gyda system ar wahân ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru. Fel rhan o'n gwaith, gwnaethom ofyn i'r cyrff nodi i ba raddau oedd y systemau'n ymwneud â nifer o feysydd gwasanaeth craidd wedi'u hintegreiddio â'r brif system cofnodion claf, sef CANISC yn yr achos hwn.

25. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, o'r tair system wybodaeth glinigol a adroddwyd i ni, mae tair wedi eu cysylltu i CANISC (Arddangosyn 10), er mai ond un sy'n gwbl integredig ac mae gan un gysylltiadau dwy ffordd[14]. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth nid oes ganddi system batholeg, yn hytrach mae'n dibynnu ar y gwasanaeth patholeg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Er bod llai o systemau nag y byddech yn dod ar eu traws mewn Bwrdd Iechyd, mae lefel yr integreiddio â'r brif system gleifion yn gymharol â'r rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG ar draws Cymru (Arddangosyn 11).


Arddangosyn 10: I ba raddau y mae'r systemau gwybodaeth glinigol yn integredig â'r System Gleifion Graidd

| System glinigol | Yr Ymddiriedolaeth hon | Nifer y systemau sy'n integredig neu sydd â chysylltiadau dwy ffordd i'r PAS craidd mewn byrddau iechyd ar draws Cymru |
|---|---:|---:|
| Patholeg | Dim system yn cael ei nodi | 1 |
| Fferyllfa | Cysylltiad un ffordd | - |
| Radioleg | Cysylltiad dwy ffordd | 2 |
| Therapïau | Integredig | 3 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

[14] Mae cysylltiadau dwy ffordd yn caniatáu i wybodaeth gael ei diweddaru a'i rhannu yn y ddau gyfeiriad, fel demograffeg cleifion, rhwng y system gleifion graidd a'r system wybodaeth glinigol. Gyda chysylltiadau un ffordd gellir ond diweddaru a rhannu gwygbodaeth mewn un cyfeiriad, fel arfer o'r system gleifion graidd i'r system wybodaeth glinigol. Mae hyn yn golygu os yw gwybodaeth yn cael ei diweddaru ar y system wybodaeth glinigol nad yw'n awtomatig yn cael ei diweddaru ar y system gleifion graidd, sy'n golygu bod perygl y gallai'r ddwy system gynnwys data anghyson.

Arddangosyn 11: Nifer y systemau gwybodaeth glinigol sy'n integredig â'r System Gleifion




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

**26.** Adroddodd yr Ymddiriedolaeth fod TG a Rheoli Gwybodaeth yn cael eu rheoli ar wahân ond yn adrodd i'r un cyfarwyddwr. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod rheoli gwybodaeth graidd yn cael ei wneud drwy gytundeb lefel gwasanaeth â NWIS. Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod hefyd wedi gwario £0.076 ar staff TGCh ar wahân i'w rheolaeth uniongyrchol o'r adran TGCh yn 2013-14. Roedd hyn yn 2.9 y cant o'r holl wariant ar TGCh ond mae'n is na'r cyfartalog Cymru gyfan o 7.2 y cant a'r ail isaf yng Nghymru. Roedd y staff hyn yn darparu hyfforddiant TG a chymorth technegol gyda system glinigol benodol, fel rhan o rôl ehangach yng nghyd-destun rheoleiddio'r gwasanaeth clinigol penodol hwnnw.

**27.** Fel rhan o'n harolwg staff, roeddem yn holi barn meddygon sy'n gweithio mewn ysbytai cyffredinol dosbarth am y TGCh oedd ar gael yn eu sefydliad nhw. Yn yr

Ymddiriedolaeth, roedd hyn yn cynnwys meddygon sy’n gweithio yng Nghanolfan Ganser Felindre. Yn benodol, roeddem yn holi eu barn am:

- ddefnydd y sefydliad o’r cyfleusterau TGCh;
- a oedd y systemau gwybodaeth glinigol wedi gwella’r gofal a roddir i gleifion; a
- a oedd y TGCh yn y sefydliad yn well na mewn sefydliadau eraill yr oeddent wedi gweithio ynddynt o’r blaen.

**28.** Ar y cyfan, roedd ymateb hanner y meddygon yn yr Ymddiriedolaeth yn gadarnhaol o’i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 31 y cant. Dyma’r ymateb cadarnhaol ail uchaf yng Nghymru. Er bod maint y sampl yn fach, meddygon oedd y rhai lleiaf cadarnhaol o ran bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd da o’i chyfleusterau TGCh (Arddangosyn 12). Rhoddir sylwadau testun rhydd a dderbyniwyd gan staff meddygol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer yr arolwg, sy'n rhoi peth cyd-destun ar gyfer eu barn, yn Atodiad 3.

Arddangosyn 12: Canran o feddygon oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf â’r datganiadau canlynol ynghylch TGCh yn yr Ymddiriedolaeth


| | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan |
|---|---|---|
| Mae’r Ymddiriedolaeth hon ar hyn o bryd yn gwneud defnydd da o’i chyfleusterau TG. | 40.0 | 24.2 |
| Mae’r systemau TG a ddatblygwyd yn yr Ymddiriedolaeth hon wedi gwella’r gofal a roddir i gleifion. | 70.0 | 46.8 |
| Mae’r TG yn yr Ymddiriedolaeth hon yn well na’r TG mewn cyrff iechyd eraill a welais yn bersonol. | 50.0 | 20.7 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth lefel dda o ddyfeisiau TG ar gael i’r staff ac mae’r mynediad ffisegol at gyfrifiaduron a systemau gwybodaeth glinigol yn dda


**29.** Er mwyn i staff allu cael mynediad at systemau gwybodaeth glinigol, mae’n bwysig bod lefel dda o ddyfeisiau (cyfrifiaduron, terfynellau etc) ar gael yn yr ardaloedd clinigol. Ar draws Cymru, aethom ati i adolygu nifer y dyfeisiau ar gyfer pob meddyg cyfwerth ag amser llawn a nyrs cyfwerth ag amser llawn (Arddangosion 13 a 14). Mae gan yr Ymddiriedolaeth fwy o ddyfeisiau am bob aelod o staff na’r cyfartalog Cymru gyfan.

Arddangosyn 13: Cyfanswm y dyfeisiau i bob meddyg (WTE)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

Arddangosyn 14: Cyfanswm y dyfeisiau i bob nyrs (WTE)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru, Ystadegau Cymru

**30.** Fel rhan o'n harolygon staff, roeddem yn gofyn i'r staff meddygol a'r staff nyrsio pa mor aml nad oeddent yn gallu defnyddio cyfrifiadur i gwblhau tasgau a chael gafael ar wybodaeth oherwydd prinder cyfrifiaduron. Mae canlyniadau'r arolwg staff yn yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar nifer fach iawn o gyfranogwyr ond yn awgrymu bod y perfformiad yn fwy ffafriol na'r sefyllfa Cymru gyfan (Arddangosyn 15).

Arddangosyn 15: Canran y staff meddygol a'r staff nyrsio a ddywedodd na allent gwblhau tasgau a chael gafael ar wybodaeth oherwydd prinder cyfrifiaduron a hynny'n wythnosol neu'n amlach

| | Staff meddygol | | Staff nyrsio | |
|---|---|---|---|---|
| | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan |
| Ar y ward | 11.1 | 57.0 | 33.3 | 48.0 |
| Mewn ystafelloedd cleifion allanol | 10.0 | 20.0 | | |
| Yn y swyddfa | Dim | 22.0 | | |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

31. Yn ogystal â mynediad ffisegol at y caledwedd, mae hefyd angen i staff gael hawliau priodol i ddefnyddio'r systemau gwybodaeth fel y medrant weld y wybodaeth glinigol i'w helpu i wneud eu gwaith. Ar draws y chwe aelod o staff nyrsio a ymatebodd i'n harolwg, ni soniodd yr un ohonynt am system yn yr Ymddiriedolaeth lle nad oedd ganddynt fynediad ond yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol pe bai ganddynt. Ar draws Cymru mae hawliau mynediad yn fwy o bryder, gyda 24 y cant o'r staff nyrsio'n cyfeirio at systemau lle nad oes ganddynt fynediad ond yn cydnabod y byddai mynediad o'r fath yn ddefnyddiol.

## Rheolir cyfarpar TGCh yr Ymddiriedolaeth yn dda ac, ar y cyfan, mae dibynadwyedd y systemau'n foddhaol

32. I gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, rhaid i systemau gwybodaeth glinigol fod yn ddibynadwy. Os yw defnyddwyr systemau'n cael trafferthion parhaus (gwirioneddol neu fel canfyddiad) gyda'u defnyddio, bydd manteision systemau electronig yn lleihau wrth i staff fod yn gyndyn o'u defnyddio neu greu systemau eraill fel cadw cofnodion papur.

33. Awgryma ein harolygon fod meddygon a staff nyrsio'r Ymddiriedolaeth yn tueddu i beidio â chael problem gyda systemau sy'n chwalu neu ddim ar gael ar y wardiau, er y gallai problemau godi i'r staff meddygol yn y swyddfeydd a'r ystafelloedd cleifion allanol lle oedd systemau yn fwy tebygol o chwalu neu o beidio â bod ar gael yn wythnosol neu'n amlach. Ar draws Cymru, roedd tua chwarter y staff yn adrodd problemau cyson nad oedd y systemau ar gael (Arddangosyn 16).

Arddangosyn 16: Canran y staff meddygol a'r staff nyrsio a ddywedodd na allent ddefnyddio'r cyfrifiadur oherwydd bod y system wedi chwalu neu nad oedd ar gael yn wythnosol neu'n amlach

| | Staff meddygol | | Staff nyrsio | |
|---|---|---|---|---|
| | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan |
| Ar y ward | 11.1 | 24.0 | Dim | 28.0 |
| Mewn ystafelloedd cleifion allanol | 30.0 | 20.0 | | |
| Yn y swyddfa | 20.0 | 19.0 | | |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

34. Er mwyn monitro i ba raddau nad yw'r systemau gwybodaeth glinigol ar gael i'w defnyddio, dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau fod yn cadw cofnod o unrhyw amser segur a gynlluniwyd ac annisgwyl. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod ganddi


gofnodion rhannol o amser segur ar gyfer ei systemau i gyd yng nghyswllt methiannau meddalwedd, rhwydwaith a gweinydd.

**35.** Lle oedd cofnodion yn bodoli, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod ganddi gofnodion ar gyfer 36 achlysur amser segur a gynlluniwyd a naw achlysur amser segur annisgwyl yn 2013-14. Roedd y rhain yn effeithio ar y system CANISC graidd. Cyfanswm yr amser segur annisgwyl oedd pum awr. Ni allwn ddarparu cymhariaeth o amser segur annisgwyl ar draws Cymru oherwydd bod y cofnodion amser segur yn anghyflawn.

**36.** Gall oed y cyfarpar fod yn ffactor bwysig sy'n cyfrannu at fethiant systemau ac amser segur. Lle oedd y wybodaeth ar gael, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod oed cyfartalog y cyfarpar yn amrywio rhwng pum mlynedd ar gyfer gweinyddion a systemau gweithredu pen-desg, a 12 mlynedd ar gyfer meddalwedd a chyfarpar telathrebu.

**37.** Fel rhan o'n gwaith, rydym wedi casglu gwybodaeth am faint o'r cyfarpar TGCh presennol a ddosbarthwyd i fod wedi 'gorffen ei oes'.[15] Roedd y gost gros o adnewyddu'r cyfarpar TGCh a ddosbarthwyd fel bod wedi 'gorffen ei oes' ar 31 Mawrth 2014 yr isaf yng Nghymru sef £1.2 miliwn (Arddangosyn 17).

Arddangosyn 17: Y gost gros (£000oedd) o adnewyddu'r cyfarpar TGCh a ddosbarthwyd fel bod wedi 'gorffen ei oes' ar 31 Mawrth 2014




Ffynhonnell: Cyflwyniadau GIG i Lywodraeth Cymru

[15] Diffinnir 'gorffen ei oes' fel rhywbeth lle daeth ei oes ddefnyddiol i ben ac nad yw'n werth ei drwsio.

## Mae’r trefniadau hyfforddiant presennol, ar y cyfan, yn cefnogi medrusrwydd gyda defnyddio’r systemau ac ansawdd y wybodaeth sydd ynddynt

**38.** Er mwyn gallu gwneud y defnydd gorau o’r systemau gwybodaeth glinigol sydd ar gael i’r staff clinigol a deall y gofynion a ddisgwylir o ran ansawdd y data a diogelu data, rhaid sicrhau bod lefel briodol o hyfforddiant yn ei lle.

**39.** Yn ôl yr Ymddiriedolaeth mae hyfforddiant ar y systemau gwybodaeth glinigol yn cael ei gynnig i bob aelod newydd o staff lle mae angen defnyddio systemau o’r fath. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth hefyd fod yn rhaid i’r holl staff clinigol fynychu sesiwn hyfforddiant i dderbyn rhif adnabod mewngofnodi a chyfrinair ar gyfer y systemau sydd angen iddynt eu defnyddio (ac eithrio’r staff clinigol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru). Mae hyn yn unol â’r rhan fwyaf o gyrff eraill y GIG ar draws Cymru.


**40.** Mae’r arolwg staff nyrsio’n awgrymu, fodd bynnag, y gallai fod problem oedi gyda derbyn hyfforddiant yn yr Ymddiriedolaeth. Roedd pedwar allan o’r chwe staff nyrsio a fynegodd farn yn anghytuno â’r datganiad ‘Nid oes raid i staff newydd ar y ward aros i dderbyn yr hyfforddiant / cyfrineiriau sydd eu hangen arnynt i ddefnyddio systemau TG yr ysbyty'. Ar draws Cymru, roedd 60 y cant o’r staff nyrsio hefyd yn anghytuno â’r datganiad hwn. Darperir yr holl hyfforddiant i’r staff nyrsio drwy’r cytundeb lefel gwasanaeth â NWIS.

**41.** Mae’r hyfforddiant ar system CANISC yr Ymddiriedolaeth, ar draws yr holl grwpiau staff, yn para 1.3 awr ar gyfartaledd. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth mae’r cyfnod hyfforddiant yn cael ei deilwrio yn ôl anghenion yr unigolyn a pha fynediad sydd ei angen. Ar draws Cymru, mae’r cyfnod hyfforddiant cyfartalog ar y system gleifion graidd, ar draws yr holl grwpiau staff, yn bron i bedair awr. Ar sail ein harolwg staff meddygol, teimlai saith allan o ddeg yn ffyddiog ynghylch eu hyfedredd i ddefnyddio’r systemau TG yr oedd eu hangen arnynt yn yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn unol â'r sefyllfa ar draws Cymru, gyda 70 y cant o feddygon yn dweud eu bod yn ffyddiog ynghylch eu hyfedredd i ddefnyddio’r systemau oedd eu hangen arnynt.

**42.** Pan ofynnwyd, dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod hyfforddiant gloywi ar ddiogelu data a gofynion Caldicott yn orfodol ar gyfer yr holl staff. Adroddir na chynigir hyfforddiant ar ansawdd data fel mater o drefn i staff yr Ymddiriedolaeth ond deallwn fod agweddau ar ansawdd data’n cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant ehangach ar Lywodraethu Gwybodaeth sydd hefyd yn cynnwys diogelu data a Caldicott. Ar draws Cymru mae hyfforddiant ar ddiogelu data a Caldicott yn orfodol ym mhob sefydliad heblaw am un, ond dim ond mewn un bwrdd iechyd y mae hyfforddiant ar ansawdd data’n orfodol. Dywedodd wyth allan o ddeg o feddygon a ymatebodd i’r arolwg yn yr Ymddiriedolaeth y gallent ddibynnu ar y wybodaeth yn y systemau clinigol, o’i gymharu â chyfartalog o 52 y cant ar draws Cymru. Yn ogystal, dywedodd wyth allan o ddeg o’r rhai a ymatebodd fod y wybodaeth ar y systemau TG yn gywir. Ar draws Cymru, dim ond 42 y cant o feddygon a gytunodd fod y wybodaeth ar eu systemau TG yn gywir.

**43.** Yn ogystal â staff parhaol, mae hefyd yn bwysig bod staff dros dro a gyflogir i weithio yn yr ardaloedd clinigol (gan gynnwys rhai gyda chontractau anrhydeddus) hefyd yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol. Nododd yr Ymddiriedolaeth fod pob un o'r pedwar gwahanol grŵp o staff dros dro (nyrsys asiantaeth, nyrsys banc, meddygon locwm a staff meddygol gyda chontractau anrhydeddus) yn cael cynnig hyfforddiant. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r proffil ar draws Cymru (Arddangosyn 18).

Arddangosyn 18: Nifer y grwpiau staff dros dro sy'n cael cynnig hyfforddiant





Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

## Mae meddygon yn gwneud y defnydd mwyaf o systemau TGCh clinigol prif ffrwd i ofalu am gleifion, yn llawer mwy nag amryw o rai eraill ar draws Cymru

**44.** Fel rhan o'n harolwg staff, roeddem yn holi barn meddygon ynghylch gallu defnyddio systemau TGCh i gael gafael ar wybodaeth glinigol ac i gyflawni nifer o dasgau clinigol, heb fod angen dibynnu ar systemau papur.

**45.** Mae méddygon sy'n gweithio yn ysbyty'r Ymddiriedolaeth yn gallu dibynnu llawer iawn mwy na'r cyfartalog ar draws Cymru ar ddefnyddio dim ond cyfrifiaduron i gael gafael ar ystod o wybodaeth glinigol. Dywedodd feddygon yn yr Ymddiriedolaeth eu bod ond yn defnyddio cyfrifiadur i gasglu gwybodaeth glinigol 67 y cant o'r amser[16]. O'r rhai sy'n defnyddio'r systemau cyfrifiadurol, roedd cyfran y tasgau lle ystyriwyd bod y wybodaeth yn hawdd cael gafael arni ar y system gyfrifiadurol o gwmpas y cyfartalog Cymru gyfan (Arddangosyn 19). Yn arwyddocaol, dywedodd feddygon yn yr Ymddiriedolaeth eu bod yn dibynnu ar bapur yn unig i gasglu gwybodaeth dri y cant o'r amser, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 35 y cant.

Arddangosyn 19: Cyfran o'r adegau pryd oedd meddygon yn defnyddio cyfrifiadur i gael gafael ar wybodaeth glinigol a pha mor hawdd oedd dod o hyd i'r wybodaeth




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

[16] Gofynnwyd i staff meddygol ar draws cyfres o 12 o dasgau a oeddent yn defnyddio cyfrifiadur, cyfrifiadur a phapur, neu bapur yn unig (fel y bo'n berthnasol). Gofynnwyd iddynt hefyd pa mor hawdd oedd gallu cwblhau'r tasgau hynny.

**46.** Dywedodd y sampl o feddygon a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfrifiadur i gael gafael ar ganlyniadau profion radiolegol a labordy ac i adolygu apwyntiadau cleifion allanol a gwybodaeth am ddiagnosis cleifion. Pur anaml oedden nhw'n dibynnu ar gofnodion papur yn unig (Arddangosyn 20).


Arddangosyn 20: Cyfran y meddygon a ddefnyddiai bapur yn unig a chyfrifiadur yn unig i gael gafael ar wybodaeth glinigol

| | Cyfrifiadur yn unig | | Cofnodion papur yn unig | |
|---|---|---|---|---|
| | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan | Yr Ymddiriedolaeth hon | Cymru gyfan |
| Atgyfeiriad gan Feddyg Teulu | 50.0 | 8.1 | 20.0 | 63.5 |
| Diagnosis | 80.0 | 8.9 | Dim | 37.1 |
| Apwyntiad claf allanol | 80.0 | 26.2 | Dim | 26.7 |
| Hanes episodau | 66.7 | 16.2 | Dim | 38.8 |
| Hanes clinigol | 60.0 | 7.9 | Dim | 46.2 |
| Ymchwiliadau a ofynnwyd amdanynt | 60.0 | 24.9 | 10.0 | 17.1 |
| Canlyniadau profion labordy | 70.0 | 46.7 | Dim | 2.4 |
| Adroddiadau radioleg | 80.0 | 49.6 | Dim | 3.4 |
| Gweithdrefn | 44.0 | 10.8 | Dim | 42.2 |
| Atgyfeiriad therapi | 33.3 | 16.4 | Dim | 38.6 |
| Sesiwn therapi | 55.6 | 13.7 | Dim | 49.1 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

**47.** Yn ôl ein sampl o staff meddygol yn yr Ymddiriedolaeth, roeddent yn defnyddio cyfrifiadur yn unig i gwblhau tasg glinigol 43 gwaith allan o 100. Ar bob un o'r achlysuron hynny heblaw am un, ystyriai'r staff meddygol fod cwblhau'r dasg wedi bod yn weddol hawdd neu'n hawdd iawn. Er mai bach oedd sampl y staff meddygol yn yr Ymddiriedolaeth, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod defnyddio cyfrifiadur ar gyfer tasgau clinigol yn llawer mwy cyffredin yn yr Ymddiriedolaeth nag ar safleoedd eraill ar draws Cymru, a'u bod yn haws eu defnyddio hefyd na'r cyfartalog ar draws Cymru (Arddangosyn 21). Dywedodd feddygon yn yr Ymddiriedolaeth eu bod yn dibynnu ar bapur yn unig ar gyfer 41 y cant o dasgau clinigol, o'i gymharu â chyfartalog Cymru gyfan o 54 y cant.

Arddangosyn 21: Cyfran yr adegau pryd y defnyddiai feddygon gyfrifiadur i gwblhau tasgau clinigol a pha mor hawdd oedd cwblhau'r tasgau hynny




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

**48.** Yn ôl meddygon yn yr Ymddiriedolaeth, y tasgau mwyaf cyffredin yr oeddent yn eu cwblhau'n defnyddio cyfrifiadur oedd ysgrifennu nodiadau ar apwyntiadau cleifion allanol a chael gafael ar lenyddiaeth seiliedig ar dystiolaeth, gwybodaeth iechyd cyhoeddus a chanllawiau clinigol. Roedd yr holl feddygon yn yr Ymddiriedolaeth yn ein harolwg yn dibynnu ar bapur yn unig i archebu profion labordy ac ymchwiliadau radiolegol (Arddangosyn 22).

Arddangosyn 22: Cyfran y meddygon a ddefnyddiai bapur yn unig a chyfrifiadur yn unig i gwblhau tasgau clinigol

| | Cyfrifiadur yn unig | | Cofnodion papur yn unig | |
|---|---|---|---|---|
| | Yr Ymddiried olaeth hon | Cymru gyfan | Yr Ymddiried olaeth hon | Cymru gyfan |
| Ysgrifennu nodiadau ar apwyntiad claf allanol | 100.0 | 11.6 | Dim | 60.1 |
| Clercio'r claf wrth gael ei dderbyn | 33.3 | 5.5 | 33.3 | 75.3 |
| Archebu profion labordy | Dim | 6.7 | 100.0 | 74.5 |
| Archebu ymchwiliad radioleg | Dim | 2.9 | 100.0 | 86.0 |
| Ysgrifennu presgripsiwn | Dim | 0.2 | 60.0 | 92.9 |
| Atgyfeirio claf at dîm ymgynghorydd arall | 20.0 | 2.5 | 60.0 | 71.4 |
| Atgyfeirio claf at glinigydd anfeddygol | 20.0 | 2.4 | 40.0 | 67.2 |
| Paratoi llythyr rhyddhau claf | 33.3 | 25 | 33.3 | 36.0 |
| I wirio canllawiau clinigol yr ysbyty | 90.0 | 72.6 | 10.0 | 3.4 |
| I gael gafael ar lenyddiaeth seiliedig ar dystiolaeth | 80.0 | 88.3 | Dim | 0.7 |
| I gael gafael ar wybodaeth iechyd cyhoeddus | 80.0 | 87.3 | Dim | 0.8 |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

**49.** Yn ôl ein harolwg staff meddygol, roedd saith allan o naw o'r meddygon a ymatebodd hefyd yn defnyddio rhaglenni a ddatblygwyd yn bersonol yn fewnol i gwrdd ag anghenion fel NCEPOD neu lyfrau log coleg brenhinol. Mae'r perfformiad hwn yn llawer uwch nag ar draws Cymru lle mae 43 y cant o'r meddygon yn dweud eu bod yn defnyddio rhaglenni mewnol i'r pwrpas hwn. Dywedodd ddau allan o'r saith staff meddygol yn yr Ymddiriedolaeth eu bod yn defnyddio'r rhaglen yn fisol ond dywedodd y gweddill mai pur anaml y byddent yn ei defnyddio.

# Atodiad 1

## Dull archwilio

Cafodd ein hadolygiad diagnostig o gapasiti ac adnoddau TGCh ei wneud rhwng Medi 2014 a Mawrth 2015. Roedd yr adolygiad diagnostig yn cynnwys yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ar draws Cymru ac eithrio Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Rhoddir manylion y dull archwilio isod:

### Adolygiad o ddogfennau

Gwnaethom ofyn am a dadansoddi ystod o ddogfennau gan yr Ymddiriedolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y strategaeth TGCh, cofnodion Bwrdd yn ystyried datblygiadau TGCh, cofnodion y grwpiau llywio TGCh, polisïau cysylltiedig â TGCh, mapiau o systemau TGCh a sefyllfa'r gyllideb.

### Arolwg casglu data

Gofynasom i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau gwblhau arolwg yn rhoi manylion am eu gwariant, staffio a hyfforddiant TGCh. Gofynasom hefyd i'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau roi manylion am eu systemau gwybodaeth glinigol a'r seilwaith TGCh. Derbyniwyd yr arolwg a gwblhawyd ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 6 Tachwedd 2014 ac ail arolwg ar gyfer Gwasanaeth Gwaed Cymru, hefyd ar 6 Tachwedd 2014. Lle oedd hynny'n berthnasol, cyfunwyd y canlyniadau i greu proffil Felindre/WBS cyfunol.

### Arolwg staff meddygol

Cafodd arolwg yn holi am ystod o faterion TGCh ynghyd â nifer o gwestiynau ar wahân yn ymwneud â rheoli meddyginiaeth (fel rhan o adolygiad ar wahân o reoli meddyginiaeth) ei ddosbarthu i'r holl staff meddygol oedd yn gweithio fel arbenigwyr ar y wardiau yn y prif ysbytai cyffredinol dosbarth ar draws Cymru. Dosbarthwyd yr arolwg yn electronig i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 25 Medi 2014. Anfonwyd llythyr atgoffa ar 3 Tachwedd 2014. Derbyniwyd ymatebion gan ddeg o staff meddygol yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

### Arolwg staff nyrsio ar y wardiau

Cafodd arolwg yn holi am ystod o faterion TGCh ynghyd â nifer o gwestiynau ar wahân yn ymwneud â rheoli meddyginiaeth (fel rhan o adolygiad ar wahân o reoli meddyginiaeth) ei ddosbarthu i'r holl staff nyrsio Band 5 i 7 oedd yn gweithio ar y wardiau yn y prif ysbytai cyffredinol dosbarth ar draws Cymru. Dosbarthwyd yr arolwg yn electronig i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar 29 Medi 2014. Anfonwyd llythyr atgoffa ar 25 Tachwedd 2014. Derbyniwyd ymatebion gan chwe aelod o staff nyrsio yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

# Atodiad 2

## Yr egwyddor sgorio a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymiad i TGCh glinigol

| Agwedd ar arfer da i ddangos ymrwymiad i TGCh glinigol, gydag ymatebion posibl | Sgôr am bob ymateb |
|---|---|
| A oes gan y bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth strategaeth TGCh ffurfiol wedi'i diweddaru? | |
| A: Mae strategaeth a thystiolaeth ei bod yn cael ei chefnogi gan y staff | 2 |
| B: Mae strategaeth ond dim tystiolaeth ei bod yn cael ei chefnogi gan y staff | 1.5 |
| C: Mae strategaeth ond mae wedi dyddio | 1 |
| D: Mae tystiolaeth bod strategaeth yn cael ei datblygu | 0.5 |
| E: Nid oes strategaeth wedi cael ei hysgrifennu / cynhyrchu ar ôl Ebrill 2011 | 0 |
| Ydy'r strategaeth TGCh neu ddatblygiadau TGCh newydd wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd bwrdd yn y 12 mis diwethaf? | |
| A: Do | 2 |
| B: Naddo | 0 |
| A oes gan y bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth grŵp llywio TGCh gydag aelod o'r bwrdd arno? | |
| A: Oes | 1 |
| B: Nag oes | 0 |
| C: Dim grŵp llywio TGCh | 0 |
| A oes gan grŵp llywio TGCh y bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth aelodau clinigol arno? | |
| A: Oes | 1 |
| B: Nag oes | 0 |
| C: Dim grŵp llywio TGCh | 0 |
| Ydy'r strategaeth TGCh neu ddatblygiadau TGCh newydd wedi bod ar agenda cyfarfodydd uwchweithredol yn y 12 mis diwethaf? | |
| A: Do | 2 |
| B: Naddo | 0 |
| Ydy'r arweinydd TGCh yn aelod o'r tîm Rheoli Uwchweithredol (h.y. y tîm sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr)? | |
| A: Ydy | 3 |
| B: Nac ydy ond mae'r arweinydd TGCh yn adrodd yn uniongyrchol i rywun yn y tîm rheoli | 1 |
| C: Nac ydy ac nid yw'r arweinydd TGCh yn adrodd yn uniongyrchol i rywun yn y tîm rheoli | 0 |
| Pa mor gydgysylltiedig yw TG a Gwybodaeth? | |
| A: Maen nhw yn yr un adran | 2 |
| B: Maen nhw'n cael eu rheoli ar wahân ond yn adrodd i'r un cyfarwyddwr | 1 |
| C: Maen nhw'n cael eu rheoli ar wahân ond yn adrodd i wahanol gyfarwyddwyr | 0 |

| Agwedd ar arfer da i ddangos ymrwymiad i TGCh glinigol, gydag ymatebion posibl | Sgôr am bob ymateb |
|---|---|
| Faint o gyfraniad clinigol sydd at raglen TGCh yr Ymddiriedolaeth? | |
| A: Mae pencampwyr clinigol wedi cael eu hadnabod ac yn arwain ar y newid | 3 |
| B: Cefnogaeth glinigol weithredol, e.e. cynrychiolaeth ar weithgorau | 2 |
| C: Dim llawer o gyfraniad o gwbl, e.e. rhywfaint o bresenoldeb mewn cyfarfodydd | 1 |
| D: Cyfraniad clinigol ar y gweill | 1 |
| E: Dim | 0 |
| A oes gan y bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth gofrestr o'i seilwaith technegol? | |
| A: Oes | 1 |
| B: Nag oes, ond mae un wrthi'n cael ei chasglu ynghyd | 0.5 |
| C: Nag oes | 0 |
| A oes gan y bwrdd iechyd / ymddiriedolaeth raglen rheoli manteision TGCh ffurfiol? | |
| A: Oes, ac wrthi'n cael ei defnyddio | 3 |
| B: Oes, ar adeg flaenorol yn natblygiad systemau'r bwrdd iechyd | 2 |
| C: Nag oes, ond mae un wrthi'n cael ei datblygu | 1 |
| D: Nag oes | 0 |
| Faint o ran y mae'r arweinydd TGCh yn ei chwarae mewn Llywodraethu Clinigol? | |
| A: Yn gweithio ar y cyd ar rai prosiectau | 3 |
| B: Yn rhoi gwybodaeth yn gyson i'r adran Llywodraethu Clinigol | 2 |
| C: Yn mynychu cyfarfodydd perthnasol | 1 |
| D: Ddim yn chwarae rhan | 0 |
| A oes gan yr Ymddiriedolaeth grŵp defnyddwyr TGCh clinigol? | |
| A: Oes | 2 |
| B: Nag oes | 0 |
| Ar wahân i grwpiau defnyddwyr TGCh clinigol, a oes trefniadau i staff roi adborth ar faterion TGCh, e.e. arolygon defnyddwyr, briffio, tudalen fewnrwyd i wneud sylwadau neu gyfleoedd eraill i wneud sylwadau? | |
| A: Oes | 2 |
| B: Nag oes | 0 |

# Atodiad 3

## Sylwadau testun rhydd a gyflwynwyd fel rhan o'r arolwg staff meddygol

Fel rhan o'r arolwg staff meddygol, gofynnwyd i ymatebwyr gyflwyno unrhyw sylwadau testun rhydd yr oeddent am eu gwneud ar faterion technoleg gwybodaeth yn eu sefydliad. Rhoddir ymatebion gan staff meddygol yr Ymddiriedolaeth isod.

| |
|---|
| Mae ABUHB, lle'r wyf yn treulio dau ddiwrnod yr wythnos, yn arwain y ffordd. Mae systemau Felindre, fel CANISC, wedi dyddio, yn glonciog ac annibynadwy. |
| Os oes problem mae'n gallu cymryd hirach i'w datrys drwy NWIS na phan oedd y tîm CANISC wedi'i leoli ar y safle. Mae nifer o broblemau gyda chael gafael ar ddata o CANISC ac nid yw mwyach yn cael ei weld fel blaenoriaeth gan fwrdd datblygu CANISC oherwydd problemau rhwydwaith pwysicach. |
| Mae'r systemau TG a ddefnyddiais yn Lloegr yn 2002 yn llawer gwell na'r un o'r rhai a ddefnyddir yng Nghymru yn 2014. |
| Y brif broblem yw systemau'n chwalu fel na allwn gael gafael ar wybodaeth glinigol – mae'n digwydd yn rhwystredig o aml yn ôl yr hyn a welaf. |
| Mae pob "uwchraddio" diweddar yn mynd yn llai a llai perthnasol i Felindre ond yn hytrach yn cydymffurfio â pholisi TG Cenedlaethol sydd heb ei deilwrio o reidrwydd i weledigaeth Felindre. |
| Rhy annibynadwy – pan fydd systemau'n chwalu mae'r gwaith yn dod i stop. |
| Mae Felindre yn darparu gwasanaeth TG rhagorol ac o ganlyniad rydym yn dibynnu'n drwm iawn ar TG i wneud rhan fawr o'n gwaith. Nid yw CANISC a Chemocare wedi bod mor ddibynadwy ers i NWIS ddarparu'r gwasanaethau hyn. Gallai cyflymder rhwydwaith yr ysbyty fod yn gynt ar adegau i wneud tasgau dwys, e.e. edrych ar sganiau. Rwy'n deall bod angen llywodraethu gwybodaeth yn dda, ond teimlaf ar adegau fod hyn ar draul diogelwch cleifion – e.e. ebyst mewnol heb ddigon o fanylion adnabod cleifion. Mae VPN a rhwydweithio traws-ymddiriedolaeth yn werthfawr iawn i wella cynhyrchedd. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk